University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Caerdydd | Casnewydd | Pontypridd
www.decymru.ac.uk/ysgolionacholegau

RHAGLEN TYMOR Y GWANWYN 2022 I YSGOLION A CHOLEGAU

CROESO

Mae tîm arbenigwyr arobryn Prifysgol De Cymru yn gweithio gydag ysgolion a cholegau ledled y DU yn cyflwyno gweithdai rhyngweithiol sydd wedi'u cynllunio i hysbysu myfyrwyr am addysg uwch, a'u cefnogi gyda pharatoi ar gyfer prifysgol.

Mae ein sesiynau ymwybyddiaeth addysg uwch:

- Yn rhad ac am ddim
- Ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Ar gael wyneb yn wyneb neu ar-lein
- Wedi'u teilwra ar gyfer anghenion eich myfyrwyr

Gall ein rhaglen o weithgareddau, adnoddau a digwyddiadau gefnogi'ch ysgol neu'ch coleg i gyflawni Meincnodau Gatsby. I gael mwy o wybodaeth am wyth Meincnod Gatsby ar gyngor gyrfa da, cliciwch yma.

Campws Dinas Casnewydd

SESIYNAU YMWYBYDDIAETH ADDYSG UWCH

Pam Addysg Uwch?

Mae'r sesiwn ryngweithiol hon yn ateb tri chwestiwn sylfaenol: Ydy prifysgol yn werth chweil? Ydy hi'n gyraeddadwy? Ydy hi'n fforddiadwy?

Mae'r sesiwn hefyd yn tynnu sylw at y gwahanol ddulliau o ymchwilio a darganfod y brifysgol a'r cwrs cywir.

Y Broses UCAS

O gofrestru a dewis cwrs, hyd at ddiwrnod canlyniadau a chlirio, mae'r sesiwn hon yn arwain myfyrwyr trwy'r broses UCAS ac yn tynnu sylw at sut y gall myfyrwyr wneud y gorau o'u cais.

Cyllid Myfyrwyr

Mae'r sesiwn hon yn caniatáu i fyfyrwyr nodi'r math a'r swm o gymorth ariannol sydd ar gael yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ariannol a allai fod ganddynt.

Creu Argraff mewn Cyfweliad

Trwy weithgareddau chwarae rôl ac enghreifftiau go iawn, nod y sesiwn hon yw paratoi myfyrwyr i greu argraff mewn cyfweliadau prifysgol a/neu swydd.

Sgiliau Astudio

Bydd y gweithdy hwn yn amlinellu rhai o'r sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer astudio lefel 3 a thu hwnt. Bydd myfyrwyr yn ystyried ystod eang o sgiliau astudio, gan gynnwys darllen ac ysgrifennu effeithiol, technegau adolygu, cyfeirio, llên-ladrad a rheoli amser.

Ysgrifennu Datganiad Personol

Bydd y sesiwn hon yn helpu myfyrwyr i ddeall yr hyn y mae prifysgolion yn chwilio amdano, sut i gyflwyno eu hunain yn y ffordd orau a sut i ddod o hyd i'r cymhelliant i 'wneud y peth'.

Gweithdy Gwneud Cais UCAS

Gadewch i'n tîm profiadol arwain eich myfyrwyr trwy broses ymgeisio ar-lein UCAS.

Paratoi ar gyfer Gyrfaoedd y Dyfodol

Mae dyfodol y cyflogaeth yn newid. Mae'r sesiwn hon yn cynnig mewnwelediad i sut mae'r byd gwaith yn datblygu, a sut y bydd addysg uwch yn helpu i baratoi myfyrwyr ar gyfer swyddi'r dyfodol.

Lles a Gwydnwch

Mae'r gweithdy hwn yn arfogi dysgwyr â strategaethau i sicrhau llesiant cadarnhaol gyda ffocws ar sut i wneud y mwyaf o'u cyfleoedd astudio.

Addysg Uwch o fewn Addysg Bellach

Gyda dros 60 o gyrsiau wedi'u rhyddfreinio i'n colegau partner ledled De Cymru, gallwn gynghori myfyrwyr ar fanteision astudio cymhwyster PDC yn eu coleg lleol.

Myfyrwraig yn Llyfrgell Campws Caerdydd

GWEMINARAU BYW PDC

Gall ddewis mynd i'r brifysgol fod yn brofiad pryderus a dryslyd i fyfyrwyr a rhieni, ond mae ein tîm arobryn yma i helpu.

Anogwch eich myfyrwyr i ymuno â'n gweminarau byw trwy gydol y flwyddyn, a fydd yn eu tywys trwy'r broses hon. O gais UCAS i iechyd a lles myfyrwyr, byddwn yn esbonio'r cyfan.

Cynhelir y gweminarau trwy gyfrwng y Saesneg gyda chyfle i ofyn cwestiynau yn Gymraeg.

Gweminarau

Dyddiad	Amser	Sesiwn
15 Chwefror	6-6.30 pm	Lles a Chadernid
1 Mawrth	6-6.30 pm	Pam Addysg Uwch?
15 Mawrth	6-6.30 pm	Gwneud cais am lety myfyrwyr: Holi ac ateb i rieni a gofalwyr
23 Mawrth	5.30-6.30 pm	Astudio ar Gyfer Gyrfa Mewn Gofal Iechyd
29 Mawrth	6-6.30 pm	Sgiliau Astudio
30 Mawrth	5.30-6.30 pm	Gwneud Cais Llwyddiannus I Astudio Cyrsiau Iechyd

SUT I NEILLTUO LLE

Gall myfyrwyr gael mwy o wybodaeth a neilltuo eu lle yma.

Myfyriwr yn y Ganolfan Efelychu Clinigol, Campws Glyn-taf

DIGWYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU PWNC-BENODOL

Gydag amrywiaeth o sesiynau rhyngweithiol i ddewis ohonynt ar draws pob un o'n Cyfadrannau, bydd ein digwyddiadau a'n gweithgareddau pwnc-benodol yn rhoi cyfle i'ch myfyrwyr gael mewnwelediad go iawn i astudio pwnc penodol yn y brifysgol. Mae sesiynau ar gael yn y meysydd pwnc canlynol:

- Bioleg a Fforensig
- Busnes*
- Ceiropracteg
- Celf a Dylunio*
- Cemeg
- Cerddoriaeth
- Cymdeithaseg
- Chwaraeon
- Daearyddiaeth, Daeareg a Hanes Byd Natur
- Drama*
- Ffilm a'r Cyfryngau
- Ffotograffiaeth
- Gofal Plant, Addysg a Dysgu*
- Gwasanaethau Cyhoeddus a Heddlua*
- Gwaith Ieuenctid a Chymunedol
- Y Gyfraith*
- Hanes
- Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Mathemateg
- Peirianneg*
- Saesneg
- Seicoleg
- Seicotherapi a Chynghori
- Technoleg Dylunio
- Teithio a Thwristiaeth
- TGCh
- Troseddeg

CYSYLLTU Â NI

Rydyn ni'n gallu cynnal gweithgareddau pynciol wyneb yn wyneb neu yn rhithiol dros Microsoft Teams. Cysylltwch â ni i wybod mwy neu i drafod eich anghenion.

*Sesiynau cyfrwng Cymraeg ar gael

EHANGU CYFRANOGIAD

Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i gefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o unrhyw oedran, cefndir neu grŵp ethnig a sicrhau eu bod yn cael cyfle teg a chyfartal i astudio mewn modd a gefnogir.

O fewn y Tîm Recriwtio Myfyrwyr, mae staff sy'n cefnogi ac yn cyflwyno ystod o weithgareddau ar gyfer myfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys:

- Gofalwyr ifanc a'u teuluoedd
- Plant a theuluoedd milwrol
- Myfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu ychwanegol
- Myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Oedolion 21+
- Myfyrwyr sydd naill ai mewn gofal ar hyn o bryd, neu sydd wedi bod mewn gofal ar ryw adeg yn eu bywydau
- Myfyrwyr o godau post difreintiedig a nodwyd trwy systemau POLAR a TUNDRA

SUT ALLWN NI HELPU

Rydyn ni'n darparu gwybodaeth a chymorth i athrawon a chynghorwyr i helpu i baratoi myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol ar gyfer addysg uwch. Os ydych chi'n meddwl y gallech chi a / neu'ch myfyrwyr elwa o'n cefnogaeth, cysylltwch â ni.

Myfyrwraig mewn ystafell ddosbarth, Campws Trefforest

Campws Glyn-taf, Pontypridd

DATBLYGU PROFFESIYNOL AR GYFER ATHRAWON A CHYNGHORWYR

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Tîm Recriwtio Myfyrwyr yn gweithio gyda dros 2,000 o athrawon a chynghorwyr i sicrhau bod ganddynt wybodaeth addysg uwch gyfoes, gan gynnwys cynnal cynadleddau sy'n eu cefnogi yn eu rolau addysgu ac ymgynghorol o ddydd i ddydd.

Os ydych eisiau ymholi am weithgaredd penodol neu gymorth wrth lunio llwybrau eich myfyrwyr tuag at addysg uwch, anfonwch ebost atom ni. Os hoffech gael eich cynnwys ar ein cronfa ddata o gysylltiadau allweddol, llenwch y ffurflen hon.

Noder bod modd darparu ein sesiynau datblygu proffesiynol ar-lein ar adeg sy'n addas i chi. Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan.

CYSYLLTU Â NI

Anfonwch ebost at y Tim Recriwtio Myfyrwyr i drefnu sesiwn datblygu proffesiynol.

DIWRNODAU AGORED

Rydym yn cynnal rhaglen gyffrous o ddiwrnodau agored a digwyddiadau ar-lein trwy gydol y flwyddyn, fel y gall eich myfyrwyr ddarganfod mwy am PDC.

Ar y campws

Bydd eich myfyrwyr yn cael cyfle i archwilio ein campysau yng Nghaerdydd, Casnewydd, neu Bontypridd, cwrdd â staff academaidd a myfyrwyr, dysgu am fywyd yn PDC a materion cyllid, a chymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'u cwrs.

Ar-lein

Rydym yn cynnal diwrnodau agored ar-lein trwy gydol y flwyddyn. Gall eich myfyrwyr wylio cyflwyniadau byw gan ein staff addysgu a chymorth, sgwrsio'n fyw gyda staff a myfyrwyr a gofyn cwestiynau mewn sesiynau Holi ac Ateb. Mae'r rhain yn opsiwn gwych os na all eich myfyrwyr gyrraedd y campws neu eisiau dysgu mwy ar ôl digwyddiad ar y campws.



Ar Alw

Gall eich myfyrwyr edrych ar ddeunydd ein diwrnod agored ar alw ar unrhyw adeg i ddarganfod ein cyrsiau, mynd ar daith campws rithwir, a sgwrsio â staff a myfyrwyr trwy Unibuddy.

DIWRNODAU AGORED

Dydd Sadwrn 19 Chwefror (Ar y campws)

Dydd Sadwrn 5 Mawrth (Ar y campws)

Dydd Sadwrn 2 Ebrill (Ar y campws)

Cefnogwch eich myfyrwyr i baratoi at yfory, heddiw.

Rydyn ni'n teimlo'n gryf dros wella pob yfory, felly rydym wedi tynnu yn ôl rhag argraffu deunydd lle bo'n bosib.

Mae gan ein prosbectws digidol newydd yr holl wybodaeth sydd ei hangen am Brifysgol De Cymru, mewn un man. Sganiwch y cod QR isod neu ewch i'r tudalen we yma.

Search: **PrifysgolDeCymru**

Cynhyrchwyd gan Adran Marchnata a Denu Myfyrwyr Prifysgol De Cymru.

Mae Prifysgol De Cymru yn elusen gofrestredig. Rhif Elusen 1140312.

Mae'r Brifysgol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.